Cylchlythyr

Cyngor Gwledig
LLANELLI
Rural Council

Croeso i rifyn cynatf Cylchlythyr Cyngor Gwledig Llanelli!

Tachwedd 2026 Rhifyn #01



Croeso gan y Cadeirydd

Cllr. Michelle Donoghue

Mae'n fraint dal swydd Cadeirydd Cyngor Gwledig Llanelli ar gyfer y flwyddyn fwrdeisiol 2026/27. Rwy'n falch o gynrychioli ardal Gwledig Llanelli a ward Bynea, a gwnaf hynny hyd eithaf fy ngallu.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, edrychaf ymlaen at gefnogi gwaith y cyngor a helpu i godi arian ar gyfer yr elusennau rwyf wedi'u dewis, sef LARS (Loud Applause Rising Stars) ac Apêl Hosbis Ty Bryngwyn.

Hoffwn hefyd estyn croeso cynnes i Matthew Thomas fel Clerc newydd y Cyngor. Dymunaf bob llwyddiant iddo yn ei rôl newydd.

Yn olaf, hoffwn fynegi fy niolch diffuant a dymuno'n dda i Mark Galbraith, ein Clerc sy'n ymddeol, am ei ymroddiad, ei gefnogaeth a'i wasanaeth gwerthfawr i'r cyngor. Mae arweiniad cyson Mark, ei arbenigedd diguro a'i onestrwydd llwyr wedi bod yn gysur mawr i mi a'm cyd-gynghorwyr dros y blynyddoedd. Nid cofnodi trafodaethau yn unig y mae clerc rhagorol; maent yn cynnal heddwch, yn cynnal ein trefniadau llywodraethu, ac yn ein harwain yn ddiogel trwy ddyfroedd cymhleth llywodraeth leol. Ar ran y cyngor cyfan, y staff a'r trigolion rydym yn eu cynrychioli, diolch i chi, a dymunwn ymddeoliad iach a hapus i Mark!

Ymddeoliad Hapus.....



Roedd Cyngor Gwledig Llanelli yn falch o ddathlu achlysur arbennig iawn, pan gyflwynwyd gwobr i Glerc y Cyngor, Mark Galbraith, i gydnabod 25 mlynedd o wasanaeth ymroddedig i Gyngor Gwledig Llanelli.

Mae'r cyflawniad nodedig hwn yn adlewyrchu gyrfa sydd wedi'i nodweddu gan ymrwymiad, proffesiynoldeb a gwasanaeth cyhoeddus rhagorol. Am chwarter canrif, mae Mark wedi chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r Cyngor, ei Aelodau, y staff a'r gymuned ehangach, gan helpu i arwain y sefydliad trwy flynyddoedd lawer o dwf a newid.

Yn ystod y cyflwyniad, talodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Michelle Donoghue, deyrnged i gyfraniad eithriadol Mark, a diolchodd iddo am ei flynyddoedd lawer o wasanaeth ffyddlon i Gyngor Gwledig Llanelli a'r trigolion y mae'n eu gwasanaethu.

Wrth i Mark gychwyn ar ymddeoliad sydd wedi'i ennill yn haeddiannol, mae'r Aelodau a'r staff yn estyn eu llongyfarchiadau gwresog a'u dymuniadau gorau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Gyda diolch diffuant am bopeth y mae Mark wedi'i wneud, a dymuniadau gorau am ymddeoliad hir, hapus a boddhaus.

Byddwn yn eu cofio.....



Dydd Sul, 8 Tachwedd, bydd cymunedau ledled Llanelli yn dod at ei gilydd yn eu lleoedd addoli lleol ac wrth gofadeiliau rhyfel i nodi Sul y Cofio. Gwahoddir trigolion yn gynnes i ddod a ymuno â ni i dalu teyrnged i'r rhai a wasanaethodd ac a aberthodd.

Gwasanaeth Coffa	8 Tachwedd, 10:30am	Sgwâr Bynea, Heol Cwmfelin, Bynea
Gwasanaeth Coffa	8 Tachwedd, 10:45am	Eglwys Sant Mihangel a'r Holl Angylion, Dafen
Gwasanaeth Coffa	8 Tachwedd, 10:15am	Eglwys Felinfoel
Gwasanaeth Coffa	8 Tachwedd, 3:00pm	Neuadd Cymunedol Pum Heol
Gwasanaeth Coffa	8 Tachwedd, 10:00am	Eglwys Dewi Sant, Llwynhendy
Gwasanaeth Coffa	8 Tachwedd, 10:00am	Y Senotaff, Neuadd y Dref Llanelli
Gŵyl y Cofio	14 Tachwedd, 7:00pm	Theatr Ffwrnes, Llanelli

Newyddion yn y Gymuned....

Agor Parc Y Gwili yn Swyddogol

Dathlodd Parc Y Gwili ei agoriad swyddogol ym mis Gorffennaf, gyda chynrychiolwyr o arianwyr y prosiect a rhanddeiliaid allweddol yn ymuno â disgyblion o Ysgolion Bryn Teg a Brynsierfel i nodi'r achlysur. Helpodd y darparwr offer chwarae, KOMPAN, i wneud y diwrnod yn arbennig iawn hefyd drwy roi bagiau anrhegion am ddim i'r plant.



Hoffi Coffi yn Agor yn Llwynhendy

Rydym wrth ein bodd yn croesawu Caffi Hoffi Coffi i Ganolfan Llwynhendy. Mae'r caffi newydd yn ychwanegiad gwych i'r ganolfan, gan roi rheswm arall i drigolion ac ymwelwyr ddod at ei gilydd a mwynhau'r cyfleuster cymunedol.

Sylw ar...

Cronfa Ddŵr Lliedi Isaf, Dyffryn y Swistir

Mae LiveFree Adventures yn cynnig gweithgareddau ar dir ac ar ddŵr yng Nghronfa Ddŵr Swiss Valley. Gall ymwelwyr fwynhau Sauna Y Coed – profiad sawna mewn coetir – a lluniaeth gan Hiatus Coffee yn Hwb Ymwelwyr y safle.

Mae Cyngor Gwledig Llanelli yn llongyfarch Ben a'r tîm ar eu llwyddiant diweddar yng Ngwobrau Busnes Sir Gaerfyrddin, a gynhaliwyd ym Mharc y Scarlets. Enillodd y tîm y categori "Busnes Twristiaeth a Lletygarwch y Flwyddyn 2026".



Yn ystod misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf, cynorthwyodd gwirfoddolwyr grŵp 'Friends of Swiss Valley Reservoir' y cyngor yn ei ymdrechion i reoli lledaeniad Balsam yr Himalaya yn yr ardaloedd lle mae'n fwyaf niferus yng Nghronfa Ddŵr Lower Lliedi. Mae'r cyngor yn dymuno diolch i'r gwirfoddolwyr a roddodd o'u hamser i helpu. Am ragor o wybodaeth am 'Friends of Swiss Valley Reservoir', cysylltwch â ni.

Mae angen sôn hefyd am y gwirfoddolwyr a gynorthwyodd y prosiect a ariennir gan 'Local Places for Nature' i blannu gwrychoedd yn yr arddull Gymreig draddodiadol. Digwyddodd hyn ar ddiwedd y llynedd a dechrau'r flwyddyn hon, gyda mwy o waith wedi'i gynllunio ar gyfer y gaeaf hwn. Diolch yn fawr i Matthew a Malcolm am eu cymorth gyda'r prosiect.

Gwirfoddolwch, Cymerwch Ran a Gwnewch Wahaniaeth!

O gasglu sbwriel a digwyddiadau cymunedol i weithgareddau awyr agored a chynorthwyo mewn lleoliadau lleol, mae llawer o ffyrdd i wirfoddoli gyda'r Cyngor. Rhowch gymaint neu gyn lleied o amser ag y gallwch, cyfarfod â phobl newydd a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eich cymuned.

Hefyd, gall gwirfoddolwyr hawlio 'Tempo Time Credits' i gydnabod yr amser y maent yn ei roi. Oes gennych ddiddordeb? Cysylltwch â ni i gael gwybod mwy!







Wyddech chi?

Mae Cyngor Gwledig Llanelli yn gyfrifol am 10 Cyfleuster Cymunedol; mae rhai yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Cyngor, tra bod eraill yn cael eu rhedeg yn llwyddiannus gan bwyllgorau gwirfoddol.

Y tro hwn, rydym yn tynnu sylw at Neuadd Sandy a Strade – lleoliad cymunedol poblogaidd a phrysur sy'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau rheolaidd, gan gynnwys dosbarthiadau celf, gwau, dawns, ymarfer corff, cerddoriaeth ac ymddygiad cŵn. Mae'n enghraifft wych o sut mae ein neuaddau cymunedol yn dod â phobl at ei gilydd ac yn darparu lleoedd ar gyfer grwpiau a gweithgareddau lleol. Darganfyddwch beth sy'n digwydd yn ein holl neuaddau cymunedol yn https://www.llanelli-rural.gov.uk/community-facilities/

Mae ein Hadroddiad Blynyddol 2025/26 bellach ar gael; mae'n rhoi trosolwg o waith, cyflawniadau a gweithgareddau'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf. Gellir lawrlwytho'r adroddiad yn https://www.llanelli-rural.gov.uk/cy/lles/adroddiad-blynyddol-cyngor/



Digwyddiadau'r Nadolig yn eich cymuned

Dydd Sul 15 Tachwedd
- Ffair Nadolig yng Nghlwb Bryn a Trallwm / 12yp-5yp

Dydd Gwener 20 Tachwedd
- Carnifal Nadolig Llanelli / 6yp

Dydd Iau 26 Tachwedd
- Goleuadau Nadolig Swiss Valley - Troi'r Goleuadau Ymlaen yn Tafarn Y Felin / 6yp

Dydd Gwener 27 Tachwedd
- Cynnau Goleuadau Nadolig Bynea yn Neuadd Saron, Sgwâr Bynea / 6yp
- Ffair Nadolig Dafen ym Mharc Dafen / 6yp

Dydd Iau 3 Rhagfyr
- Taith Sleigh Siôn Corn yn y Pwll / 6yp-7yp

Dydd Gwener 4 Rhagfyr
- Gŵyl Aeaf Pwll @ Eglwys y Drindod Sanctaidd, Heol Elgin / 5yp-8yp
- Goleuadau Nadolig Llwynhendy – Troi'r Goleuadau Ymlaen yng Nghanolfan Llwynhendy / 5yp
- Parti Plant Nadolig @ Neuadd Gymunedol Trallwm / 4yp-6yp

Dydd Iau 10 Rhagfyr
- Digwyddiad Nadolig Llwynhendy Ni yng Nghanolfan Llwynhendy / 5yp-7yp

Dydd Sul 20 Rhagfyr
- Taith Tractorau Siôn Corn Blynyddol Pum Heol / 6yp



Cyfarfodydd y Cyngor sydd ar ddod

10 Tachwedd 2026 - Y Cyngor
17 Tachwedd 2026 - Pwyllgor Lles a Hamdden
18 Tachwedd 2026 - Pwyllgor Polisi ac Adnoddau
23 Tachwedd 2026 - Pwyllgor Cynllunio a Chyswllt
25 Tachwedd 2026 - Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyfredinol
8 Rhagfyr 2026 - Y Cyngor
14 Rhagfyr 2026 - Pwyllgor Cynllunio a Chyswllt
15 Rhagfyr 2026 - Pwyllgor Lles a Hamdden
16 Rhagfyr 2026 - Pwyllgor Dinesig a Seremoniol
16 Rhagfyr 2026 - Pwyllgor Polisi ac Adnoddau
17 Rhagfyr 2026 - Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyfredinol
4 Ionawr 2027 - Pwyllgor Cynllunio a Chyswllt
12 Ionawr 2027 - Y Cyngor
19 Ionawr 2027 - Pwyllgor Lles a Hamdden
20 Ionawr 2027 - Pwyllgor Polisi ac Adnoddau
25 Ionawr 2027 - Pwyllgor Cynllunio a Chyswllt
28 Ionawr 2027 - Pwyllgor Ymgynhorol Datblygiad a Dysg

Mae LRC Training yn Helpu i Atgyfnerthu'r Neges am Ddiogelwch ar y Ffyrdd. Daeth digwyddiad Mega Drive 2026, a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, ag amrywiaeth o asiantaethau ynghyd i helpu gyrwyr sydd heb gymhwyso eto, a gyrwyr sydd newydd gymhwyso, i ddeall pwysigrwydd gyrru'n fwy diogel. Gwnaed hyn drwy sesiynau ymarferol a rhyngweithiol ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Cefnogodd LRC Training y digwyddiad drwy ddarparu efelychydd, a roddodd fewnwelediad deniadol i yrwyr ifanc i beryglon mannau dall cerbydau trwm (HGVs), goddiweddyd yn anniogel, a'r cyfrifoldeb ar y cyd sydd gan bob defnyddiwr ffordd i gadw ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn ddiogel.



enquiries@llanelli-rural.gov.uk 01554 774103 Llanelli Rural Council